**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU 2022 - 2027**

Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu 2022 - 2027 a gynhaliwyd Dydd Llun, 13 Tachwedd 2023 am 5.00 pm ym HYBRID.

Cafodd y cyfarfod yma ei ddarlledu'n fyw, ac mae modd gweld y manylion yma

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Trosolwg a Chraffu 2022 - 2027 Aelodau oedd yn bresennol**:-:-

Y Cynghorydd J Edwards (Cadeirydd)
Y Cynghorydd B Stephens Y Cynghorydd S Evans
Y Cynghorydd R Davis Y Cynghorydd G L Warren

**Roedd y Cynghorwyr canlynol yn bresennol ar-lein:-**

Y Cynghorydd M Ashford
Y Cynghorydd C Middle
Y Cynghorydd R Bevan
Y Cynghorydd J Bonetto

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Ms S Daniel, Uwch Swyddog Gwasanaethau Llywodraethol

**Ymddiheuriadau**

Y Cynghorydd S.Evans Y Cynghorydd K Morgan
Y Cynghorydd S Morgans Y Cynghorydd S Emanuel

**32 Datganiadau o Fuddiant**

Yn unol â'r Cod Ymddygiad, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

**33 Cofnodion**

**PENDERFYNWYD**: Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Medi 2023 yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

**34 Dolenni Ymgynghori**

Aeth y Blaen Swyddog Craffu ati i atgoffa Aelodau o'r ymgynghoriadau sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd os byddan nhw'n dymuno ymateb iddyn nhw.

**35 Rhaglen Waith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu**

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu yr adroddiad i Aelodau er mwyn rhoi cyfle iddyn nhw adolygu'r Rhaglen Waith. Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth yr Aelodau at Raglen

Waith y Cabinet (Atodiad 2), a hynny er mwyn rhoi cyfle iddyn nhw adolygu'r rhaglen waith a phenderfynu a oes angen trafod unrhyw faterion yn ystod cyfarfodydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, neu a oes angen cyfeirio unrhyw faterion at y Pwyllgorau Craffu er mwyn cynnal trafodaethau rhag-graffu.

Cynigodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn parhau i graffu ar faterion sy'n ymwneud â newidiadau i wasanaethau a chynigion ar y gyllideb, yn enwedig y materion hynny sy'n destun ymgynghoriad â'r cyhoedd, a hynny er mwyn sicrhau cysondeb gan fod y Pwyllgor wedi trafod y materion yma yn y gorffennol. Roedd Aelodau o blaid yr argymhellion.

**PENDERFYNWYD**:

1. Cytuno ar unrhyw faterion i'w cynnwys yn rhan o Raglen Waith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar gyfer Blwyddyn 2023/24 y Cyngor, fel y nodir yn Atodiad A gyda diwygiadau priodol yn ôl yr angen;

2. Gofyn bod y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu yn rhoi gwybod i'r Aelod perthnasol o'r Cabinet a'r Swyddog perthnasol am y materion sydd wedi'u nodi fel materion a fydd yn cael eu craffu cyn i'r Cabinet eu trafod;

3. Cytuno bod y Rhaglen Waith yn cael ei hadolygu'n rheolaidd i sicrhau bod yr eitemau sydd wedi'u nodi yn berthnasol a bod unrhyw atgyfeiriadau pellach yn cael eu cynnwys;

4. Trafod, lle bo'n addas, yr eitemau allai gael eu cyflwyno i'r Pwyllgor fel Adroddiadau Gwybodaeth, a hynny er mwyn rhoi hyblygrwydd i Aelodau drafod unrhyw eitemau brys, gan neilltuo amser rhydd i graffu ar eitemau mwy brys o bosibl; a

5. Cytuno ar ba faterion y dylid eu cyfeirio at y Pwyllgorau Craffu a'u cynnwys yn eu Rhaglenni Gwaith unigol.

6. Cytuno y bydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn craffu ar unrhyw benderfyniadau yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ac sy'n destun ymgynghoriad â'r cyhoedd, a hynny'n rhan o drefniadau ymgynghori y cytunwyd arnyn nhw

**36 Ymgynghoriad - Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu yr adroddiad i Aelodau i geisio'u hymateb nhw i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru sy'n pennu'r cynigion ar gyfer Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru).

Cafodd Aelodau wybod am y cynigion, sy'n cynnwys gosod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru i gyflwyno trefniadau fydd yn gwella amrywiaeth yn y Senedd a strwythurau democrataidd Llywodraeth Leol. Mae cynnig arall yn cynnwys atal Cynghorwyr Tref a Chynghorwyr Cymuned yng Nghymru rhag dod yn Aelodau o'r Senedd a chael gwared ar y cyfnod gras ar gyfer Prif Gynghorwyr sy'n cael eu hethol i'r Senedd ac Aelodau o'r Senedd sy'n cael eu hethol fel Aelodau Seneddol.

Trafododd yr Aelodau'r cynnig i osod dyletswydd ar Weinidogion i wella amrywiaeth yn y Senedd a Llywodraeth Leol, ac roedd yr Aelodau yn llwyr gefnogol o'r cynnig. Aeth yr Aelodau ati i drafod a dylid monitro'r mater yma i sicrhau bod modd mesur unrhyw welliant a chynnal hyder y cyhoedd yn y system, yn ogystal ag annog y rheiny sydd heb sefyll mewn etholiad o'r blaen i fod yn ddigon hyderus i wneud hynny.

Cyfeiriodd Aelod at y cynnig i gyflwyno cofrestru etholiadol heb wneud cais, a'r gallu i gynnal cynllun peilot er mwyn gweithredu'r dull mwyaf effeithiol o wneud hyn. Gofynnodd a fyddai hyn yn cysylltu â systemau'r Cyngor ar gyfer talu biliau Treth y Cyngor, er enghraifft. Esboniodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol fod trafodaethau'n cael eu cynnal ar hyn o bryd ynghylch y cronfeydd data y byddai modd eu defnyddio i gofrestru'n awtomatig gan nad yw cronfeydd data Treth y Cyngor yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf bob tro, er enghraifft, dydy enwau cyn priodi ddim wedi'u diweddaru, er enghraifft. Pwysleisiodd y bydd y mater yma'n cael ei drafod yn rhan o'r cynllun peilot sydd wedi'i gynnig.

**PENDERFYNWYD:**

1. Darparu adborth mewn perthynas â'r cynigion sydd wedi'u nodi ym mharagraff 4, a phenderfynu a yw'r Pwyllgor yn dymuno cyflwyno sylwadau neu awgrymiadau pellach, ble'n addas, yn dilyn trafodaeth am yr wybodaeth sy'n cael ei chyflwyno iddyn nhw.

2. Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu i gyflwyno'r adborth a ddarparwyd gan Aelodau i Lywodraeth Cymru, ar ran y Pwyllgor.

**37 Materion Brys**

Dim

**38 Adolygiad y Cadeirydd a dod â'r cyfarfod i ben**

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.20 pm**

**Y Cynghorydd J Edwards**
**Cadeirydd.**

Tudalen wag